Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND

HYSBYSIAD STATUDOL I NEWID YR YSTOD OED ISAF yn Ysgol Gynradd Gymunedol Queensferry, Campws Queensferry Ffordd Orllewinol Caer, Queensferry, SIR Y FLINT CH5 1SE

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Sir y Fflint, ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol, yn cynnig newid Ysgol Gynradd Queensferry, Campws Queensferry, Ffordd Orllewinol Caer, Queensferry, Sir y Fflint CH5 1SE fel bod yr ystod oed isaf yn yr ysgol yn newid o 4-11 i 3-11 oed er mwyn integreiddio'r ddarpariaeth meithrin. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir y Fflint.

Cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn, cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint ymgynghoriad. Mae adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, ymateb y cynigydd a sylwadau Estyn ar gael ar wefan Awdurdod Lleol Sir y Fflint: **www.siryfflint.gov.uk/School/Modernisation**

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi, 2014.

Bydd 30 o ddisgyblion pedair oed yn dechrau yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn gyntaf y caiff y trefniadau newydd eu rhoi ar waith. Bydd 15 o leoedd meithrin (cyfwerth ag amser llawn).

Cyngor Sir y Fflint fydd yr Awdurdod Derbyn a bydd y trefniadau derbyn disgyblion yn cydymffurfio â Pholisi Derbyn Disgyblion Cyngor Sir y Fflint, ar gyfer disgyblion meithrin yn benodol.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef 26 Mai 2014. Rhaid gwneud hynny'n ysgrifenedig drwy anfon llythyr neu e-bost at:

Y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes,
Neuadd y Sir,
YR WYDDGRUG
Sir y Fflint
CH7 6DN

E-bost: Ysgolion21ainGanrif@siryfflint.gov.uk

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau a ddaw i law (ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu, a'r ymateb iddynt, cyn pen 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

Llofnod: Y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

Dyddiad: 29 Ebrill 2014